O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 1348 (Cy. 164)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Red House Bends, Cwm-bach, Powys) (Gwahardd Dros Dro Gerbydau, Beicwyr a Cherddwyr) 2011

Gwnaed *27 Mai 2011*

Yn dod i rym *6 Mehefin 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caerdydd i Lanconwy (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Mehefin 2011. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Red House Bends, Cwm-bach, Powys) (Gwahardd Dros Dro Gerbydau, Beicwyr a Cherddwyr) 2011.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("exempted vehicle") yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaethau brys, neu mewn cysylltiad â'r gwaith sydd wedi arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("works period") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20.00 o'r gloch ar 6 Mehefin 2011 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud oddi yno'n derfynol.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.